## Gofynion profi ar gyfer symudiadau i ac o sioeau amaethyddol

1. **A oes angen cynnal Prawf Cyn Symud neu Brawf ar ôl Symud ar wartheg sydd ar ddaliad yng Nghymru os ydynt yn cael eu symud i sioe amaethyddol awyr agored a/neu dan do sy'n para llai na 24 awr, ac yn dychwelyd i'r daliad gwreiddiol?**

   Nac oes.

2. **A oes angen cynnal Prawf Cyn Symud neu Brawf ar ôl Symud os ydynt yn cael eu symud i sioe amaethyddol awyr agored a/neu dan do sy'n para llai na 24 awr, ond nad ydynt yn dychwelyd i'r daliad gwreiddiol?**

   Oes. Mae'n rhaid cynnal Prawf Cyn Symud a/neu Brawf ar ôl Symud os nad yw'r gwartheg yn dychwelyd i'r daliad gwreiddiol.

3. **A gaiff gwartheg sydd wedi symud i ddaliad yn yr Ardal TB Isel ac y mae angen Prawf ar ôl Symud arnynt, symud o'r daliad i sioe amaethyddol esempt cyn cael Prawf ar ôl Symud clir?**

   Na chant.

4. **A oes angen cynnal Prawf Cyn Symud ar wartheg sy'n cael eu symud i sioe amaethyddol awyr agored a/neu dan do sy'n para mwy na 24 awr?**

**<u>Bydd</u>** angen cynnal Prawf Cyn Symud ar wartheg o'r ardaloedd TB Uchel a Chanolradd cyn eu symud i sioe amaethyddol. Ni fydd angen cynnal Prawf Cyn Symud ar wartheg sy'n cael eu symud o Ardal TB Isel i sioe amaethyddol oni bai:

- ei bod yn amod gan y Sioe i gynnal prawf penodol gan y sioe (er enghraifft Sioe Frenhinol Cymru a'r Sioe Aeaf), a/neu
- bod profion yn cael eu cynnal ar y fuches oherwydd achos o TB neu am ei bod yn fuches gyffiniol. Yn yr achosion hyn, bydd yn rhaid ichi gynnal profion ar wartheg sy'n 42 diwrnod oed neu'n hŷn, cyn iddynt adael y daliad hyd nes y fuches yn dychwelyd i'r drefn profion gwyliadwriaeth arferol.

5. **A oes angen cynnal Prawf ar ôl Symud ar wartheg sy'n dychwelyd neu sy'n symud i Ardal TB Risg Isel o sioe amaethyddol?**

Bydd angen cynnal Prawf ar ôl Symud ar wartheg rhwng 60-120 o ddiwrnodau ar ôl dychwelyd neu symud i Ardal TB Isel o sioe amaethyddol yn yr ardaloedd TB Canolradd neu TB Uchel yng Nghymru neu yn ardaloedd Ffiniol neu Risg Uchel Lloegr.

Bydd trwydded gyffredinol yn caniatáu symud gwartheg o sioe yn ardal TB Isel Cymru, heb gynnal prawf ar ôl symud. Bydd y drwydded yn caniatáu symud gwartheg a werthwyd mewn sioe mewn Ardal TB Isel, sydd wedi dod o fuchesi yn ardaloedd TB Canolradd neu Uchel Cymru, neu o ardaloedd Ffiniol neu TB Uchel Lloegr, i'r Ardal TB Isel. Serch hynny, bydd yn rhaid cynnal Prawf ar ôl Symud. Amodau'r drwydded gyffredinol ar gael yn:
https://beta.llyw.cymru/tb-gwartheg-symud-gwartheg-o-sioe-heb-ei-heithrio

6. **Mae fy fferm i yn yr Ardal TB Isel ac rwy'n mynd â gwartheg i sioeau amaethyddol ledled Cymru (a Lloegr). Pryd bydd yn rhaid imi gynnal Prawf ar ôl Symud?**

Dyma'r prif newidiadau:

| | **Sioe mewn Ardal TB Isel, Ardal Risg Isel (Lloegr) neu'r Alban** | | **Sioe mewn Ardaloedd TB Canolradd neu Uchel, Ardal Ffiniol neu Ardal Risg Uchel** | |
|---|---|---|---|---|
| **Symud o'r safle gwreiddiol ac yn ôl yn:** | **Prawf Cyn Symud** | **Prawf ar ôl Symud** | **Prawf Cyn Symud** | **Prawf ar ôl Symud** |
| **Ardal TB Isel** | Angen* | Dim angen | Dim angen* | Angen |
| **Ardaloedd TB Canolradd** | Angen | Dim angen | Angen | Dim angen |
| **Ardaloedd TB Uchel** | Angen | Dim angen | Angen | Dim angen |

***Nid oes angen cynnal Prawf Cyn Symud oni bai:**

- bod gofyn i gynnal prawf penodol gan y sioe (er enghraifft Sioe Frenhinol Cymru a'r Sioe Aeaf), a/neu
- bod y fuches yn destun profion oherwydd achos o TB neu'n destun profion cyffiniol. Yn yr achosion hyn, bydd yn rhaid ichi gynnal profion ar wartheg sy'n 42 o ddiwrnodau oed neu'n hŷn, cyn iddynt adael y daliad hyd nes eu bod yn dychwelyd i'r drefn profion gwyliadwriaeth arferol.

7. **Pryd mae angen Prawf ar ôl Symud ar fy ngwartheg?**

Os bydd angen cynnal Prawf ar ôl Symud ar ôl dychwelyd o sioe yn yr Ardal TB Isel, ni chewch symud anifeiliaid symud i sioe arall yn ystod y tymor dangos oni bai:

- eu bod wedi cael canlyniad clir i Brawf ar ôl Symud.
- eu bod yn symud i Uned Gwarantîn, a'u bod wedi'u trwyddedu i'w gadael cyn cynnal Prawf ar ôl Symud, a'u bod yn aros yn yr Uned

Gwarantîn (pan na fyddant mewn sioe) gydol y tymor dangos nes bod Prawf ar ôl Symud terfynol yn rhoi canlyniad clir. Bydd gofyn cynnal Prawf ar ôl Symud 60-120 o ddiwrnodau ar ôl y symudiad cyntaf o sioe heb ei heithrio a gynhelir yn Ardaloedd TB Canolradd neu Uchel Cymru, neu yn yr ardaloedd Ymylol neu Risg Uchel yn Lloegr, yn ôl i'r Uned Gwarantîn. Rhaid symud gwartheg allan o'r Uned Gwaantîn yn syth ar ôl bodloni'r gofynion o ran profi ar ôl symud.

Mae trwydded gyffredinol yn ddigonol ar gyfer symud gwartheg sioe o'r Ardal TB Isel i sioeau amaethyddol ac oddi wrthynt i Uned Gwarantîn. Gallwch weld amodau'r drwydded gyffredinol yma:

https://beta.llyw.cymru/tb-gwartheg-symud-gwartheg-i-sioe-heb-ei-heithrio

Mae'r amodau'n cynnwys gofyniad i hysbysu APHA ynghylch symud anifail am y tro cyntaf i Uned Gwarantin a symud anifail buchol am y tro olaf i'r Uned Gwarantîn. Mae'n rhaid i'r symud olaf yn ôl i mewn i'r Uned Gwarantîn ddigwydd o fewn yr un flwyddyn galendr â'r symud cyntaf i mewn, a hynny er mwyn sicrhau bod prawf terfynol ar ôl symud yn cael ei gwblhau.

Gallai archwiliadau ar hap er mwyn sicrhau bod y gwartheg yn cael eu cadw yn yr Uned Gwarantîn gael eu cynnal gan APHA a gallai unrhyw achos o dorri amodau'r drwydded arwain at ddirymu'r drwydded ar gyfer daliad unigol am gyfnod penodol.

8. **Pam mae gofyn imi ddefnyddio Uned Gwarantîn gymwys ar gyfer llawer o symudiadau i sioeau ac o sioeau?**

   Bydd defnyddio Uned Gwarantîn yn diogelu'ch buches a lleihau'r risg y bydd y clefyd yn lledaenu yn y Ardal TB Isel cyn cwblhau'r profion ar ôl symud. Fel arall, ni fyddwch yn cael mynd â'ch gwartheg i sioeau gan y byddai'n rhaid i'r anifeiliaid aros ar y daliad nes cael canlyniad clir i brawf ar ôl symud.

9. **A ydw i'n cael defnyddio fy Uned Gwarantîn ar gyfer y gwaharddiad symud 6 diwrnod ac at ddibenion sioeau amaethyddol ar yr un pryd?**

   Ni ddylai anifeiliaid gael eu cymysgu o fewn yr Uned Gwarantîn tra'i bod yn cael ei defnyddio ar gyfer anifeiliaid sioe – golyga hyn fod defaid a gwartheg sy'n symud i'r fferm neu oddi yno fel arfer un ai'n ysgogi'r rheol 6 niwrnod ar wahardd symud neu'b symud drwy Uned Gwarantîn ar wahanol. Byddai hyn yn cynnwys defaid a geifr sioe. Rydym yn cydnabod y gallai fod risg ynghlwn wrth symud anifeiliaid ond ein cyngor ni yw peidio â chymysgu rhywogaethau yn ystod y broses symud lle y bo hynny'n ymarferol.

   Mae caniatáu i ddefaid fynd i mewn i'r un Uned Gwarantîn â'r gwartheg sioe yn estyn y cyfnod cyswllt.

10. **Os ydw i'n dangos gwartheg llaeth, a fydda i'n cael eu symud i'm parlwr godro arferol pan fyddan nhw yn yr Uned Gwarantîn?**

    Ni chaniateir i anifeiliaid sy'n llaetha adael Uned Gwarantîn i gael eu godro, ac ni chaniateir rhannu cyfleusterau godro rhwng anifeiliaid sydd mewn cwarantîn ac anifeiliaid nad ydynt mewn cwarantîn. Os yw anifeiliaid godro yn mynd i'r Uned Gwarantîn, gellir defnyddio cyfleusterau godro sy'n cael eu neilltuo ar gyfer yr Uned Gwarantîn yn unig, ar yr amod nad oes unrhyw offer cludadwy yn cael ei symud allan o'r Uned honno cyn iddo gael ei lanhau a'i ddiheintio'n drylwyr.

    Ceir gwerthu llaeth yr anifeiliaid yn yr Uned Gwarantîn yn y ffordd arferol, ond rhaid peidio â'i fwydo i anifeiliaid eraill ar y prif ddaliad (gan gynnwys cathod a chŵn).

11. **Os yw sioeau'n para llai na 24 awr a/neu os nad yw anifeiliaid yn cael eu cadw dan do yno, maen nhw'n cael eu heithrio rhag y rheolau Profion cyn Symud/Profion ar ôl Symud. Ydy hyn yn cynnwys pebyll/marquees?**

    Mae pebyll a marquees (hyd yn oed rhai heb ochrau) yn cael eu hystyried yn fannau cadw dan do ac nid ydynt yn cael eu heithrio rhag gofynion y Profion cyn Symud/Profion ar ôl Symud.

12. **A ymgynghorwyd â'r diwydiant am y mater hwn?**

    Mae Llywodraeth Cymru wedi trafod yr opsiynau ar gyfer gwarchod yr Ardal TB Isel rhag clefydau a allai gael eu cludo'n ôl yno o sioeau sydd y tu allan i'r Ardal TB Isel gyda chynrychiolwyr y Gymdeithas Sioeau a Sefydliadau Amaethyddol (ASAO) a Chymdeithas Sioe Frenhinol Cymru ac wedi ystyried eu pryderon wrth fynd ati i ddatblygu'r polisi hwn.

13. **Beth yw'r gwahaniaethau rhwng Uned Gwarantîn sy'n cael ei hardystio gan Lywodraeth Cymru a chyfleuster ynysu?**

    *Cyfleuster Ynysu* yw unrhyw adeilad neu safle y tu allan, sydd â mesurau bioddiogelwch i atal naill ai gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol rhwng anifeiliaid sy'n cael eu hynysu drwy rannu aer, draenio neu waredu gwastraff, neu rannu offer, gydag anifeiliaid eraill ar y safle. Gellid defnyddio hyn i atal clefydau rhag cael eu trosglwyddo o anifeiliaid sydd wedi eu symud i mewn, nad oes modd gwybod a ydynt wedi'u heintio, tan i'r profion ar gyfer y clefyd gael eu cwblhau. Gellid eu defnydido hefyd i atal y clefyd rhag lledaenu o anifail neu anifeilaid sydd eisoes wedi'u heintio.

Mae *Uned Gwarantîn* sydd wedi'i hardystio gan gorff ardystio, ar ran Llywodraeth Cymru, yn fath arbennig o gyfleuster ynysu, wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer gwartheg, defaid neu eifr sy'n symud i ddaliad i ddarparu llety tymor byr, er mwyn sicrhau nag oes angen i'r daliad cyfan cael eu hatal rhag symud anifeiliaid am 6 niwrnod. Maent yn gweithredu rheolau a gofynion penodol i atal unrhyw gysylltiad ag anifeiliaid eraill ar y daliad ac yn cael eu cymeradwyo gan gorff ardystio.

Mae Uned Gwarantîn Ardystiedig yn rhoi lefel briodol o fioddiogelwch; maent yn cael eu harchwilio, i sicrhau bod safonau'n cael eu cadw a'u bod yn cael eu defnydido'n briodol. Cafodd gofynion a rheolau gweithredu Unedau Cwarantîn Ardystiedig, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, eu cytuno gan y Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw a phartneriaid cyflawni. Roedd y cynigion yn destun Asesiad Risg Milfeddygol trylwyr hefyd.

I'w defnyddio o dan y Drwydded Gyffredinol ar gyfer symud gwartheg i mewn ac allan o sioeau sydd heb eu heithrio yn yr Ardal TB Isel, mae'n rhaid i Uned Gwarantîn ardytiedig ond gynnwys gwartheg tebyg sy'n symud i sioeau wedi'u heithrio ac oddi wrthynt.

Mae'n bosibl bod gofynion Unedau Cwarantin Ardystiedig a'r rheolau gweithredu yn debyg i'r rhai hynny ar gyfer cyfleusterau ynysu eraill, gan ddibynnu ar ddefnydd a gofynion y cyfleusterau ynysu hynny ac a ydynt yn rhan o ofyniad ar gyfer cynllun, megis Cynlluniau Iechyd TB mewn Gwartheg y diwydiant sy'n gweithredu o dan Safonau Gweithredu Iechyd Gwartheg.

Mae rhagor o wybodaeth a cwestiynau cyffredin sy'n gysylltiedig ag Unedau Cwarantin yn benodol i'w cael yma:

https://beta.llyw.cymru/unedau-cwarantin-da-byw

**14. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Uned Gwarantîn ac Uned Gwahanu TB?**

Caiff Unedau Gwahanu TB eu cymeradwyo gan APHA ar gyfer daliadau sydd dan gyfyngiadau oherwydd TB, at ddiben galluogi grŵp o wartheg ifanc i adennill statws heb TB swyddogol, o dan drefn brofi ar wahân ar gyfer TB. Mae'n rhaid iddynt gael eu lleoli i ffwrdd o'r prif ddaliad, mewn uned lle y ceir mesurau bioddiogelwch uchel, a hynny o dan rif daliad ar wahân a lle bydd angen symud trwyddedig i'r uned. Lleihau perygl lledu clefyd yw un o'r prif ffactorau wrth gymeradwyo unedau o'r fath. Ni all Unedau Gwahanu TB ond gael eu sefydlu y tu allan i'r Ardaloedd TB Isel a Chanolig. Nid oes modd eu sefydlu o fewn yr Ardal TB Canolradd ar gyfer lloi sy'n tarddu o fuchesi dan gyfyngiadau oherwydd TB mewn Ardal TB Uchel. Ni allant ond dderbyn lloi iau na 42 diwrnod oed, ac mae'n rhaid eu llenwi o fewn cyfnod o 6 wythnos.

Gall cyfleusterau gwahanu hefyd gael eu cymeradwyo gan APHA, ar ddaliad sydd dan gyfyngiadau oherwydd TB, er mwyn lleihau'r perygl gan ac i anifeiliaid sy'n cael eu prynu ar gyfer y daliad o dan drwydded, a hynny'n dilyn Asesiad Risg gan Filfeddyg.

**15. Sut rydw i'n gwneud cais am Uned Gwaratîn?**

Mae'n rhaid i Uned Gwarantîn gael ei hardystio gan gorff ardystio a achredir gan Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig. Ar hyn o bryd, mae un corff ardystio a achredir i ardystio unedau cwarantîn:

Quality Welsh Food Certification Ltd. E-bost: info@qwfc.co.uk
Ffôn: 01970 636 688

Dylech chi gysylltu â'r corff ardystio, a all rhoi rheolau gweithredol a safonau uned gwarantîn ichi. Ar ôl ichi sefydlu'ch uned gwarantîn yn unol â'r safonau hyn, dylech gysylltu â'r corff ardystio iddo adolygu ac ardystio'r uned. Codir ffi gan gyrff ardystio am y gwasanaeth hwn.